# LLOYD, EVAN (1734 - 1776), clerigwr ac awdur

**Enw:** Evan Lloyd
**Dyddiad geni:** 1734
**Dyddiad marw:** 1776
**Rhiant:** Bridget Lloyd (née Bevan)
**Rhiant:** John Lloyd
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** clerigwr ac awdur
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu
**Awdur:** Cecil John Layton Price

Ganwyd 15 Ebrill 1734, ail fab John Lloyd a Bridget Bevan, Fron Dderw, Bala. Cafodd ei addysg yn ysgol Rhuthyn a Choleg Iesu, Rhydychen (ymaelodi 22 Mawrth, 1750/1, B.A. 1754, M.A. 1757). Bu'n gurad S. Mary, Redriff, hyd 1763, pryd y daeth yn ficer segur Llanfair Dyffryn Clwyd. Bu farw'n ddibriod 26 Ionawr 1776; claddwyd ym meddrod ei deulu yn Llanycil. Cyhoeddodd amryw ddychangerddi ffraeth - *The Powers of the Pen* (London, 1766), *The Curate* (London, 1766), *The Methodist* (London, 1766; *Conversation* (London, 1767). Credid mai William Price, Rhiwlas, gerllaw'r Bala, oedd y ' Libidinoso ' a ddisgrifid yn *The Methodist*, a dug Price gyngaws am athrod yn erbyn yr awdur. Gorfodwyd Lloyd i dreulio pythefnos yng ngharchar y King's Bench, Llundain, a dirwywyd ef i'r swm o £50 ar 16 Mai 1768. Enillodd ffraethineb yr awdur gyfeillgarwch John Wilkes a David Garrick iddo; ysgrifennodd *An Epistle to David Garrick* (London, 1773). Gwawdiwyd Lloyd gan ' Scriblerius Flagellarius ' (William Kenrick ?) yn *A Whipping for the Welsh Parson* (London, 1773).

## Awdur

**Cecil John Layton Price**, (1915 - 1991)

## Ffynonellau


*Cofrestr plwyf Llanycil*

*Cardiff Manuscript* 3. 18 (33)

Foster, *Alumni Oxonienses*, 1715 - 1886

*The Gazetteer and London New Daily Advertiser*, 18 Mai 1768

*NLW MSS* 9664, 12294

*Oxford Dictionary of National Biography*

[ *Y Cymmrodor*, xxix]


## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 748093

Wikidata: Q5415462

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu